**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol**
**Minister for Natural Resources**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P-CS-1474-16

Rhun Ap Iorwerth AC
Aelod y Cynulliad dros Ynys Môn
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

rhun.apiorwerth@cynulliad.cymru

CC: Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

30 Mawrth 2016

Annwyl Rhun

Rwy'n ysgrifennu atoch yn dilyn Cwestiwn Llafar y Cynulliad gennych ar 9 Mawrth mewn perthynas â Deddf yr Amgylchedd (Cymru).

Hyd yma nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau uniongyrchol â'r Grid Cenedlaethol ynghylch eu dyletswydd am fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau fel y'i nodwyd yn adran 6 o'r Ddeddf. Fodd bynnag, bydd fy swyddogion yn cwrdd â'r Grid Cenedlaethol i drafod y ddyletswydd bioamrywiaeth newydd yn y dyfodol agos.

Fe wnaeth y Grid Cenedlaethol ymateb i'r ymgynghoriad Papur Gwyn ar Fil yr Amgylchedd Llywodraeth Cymru yn 2013 gan nodi eu bod o blaid ein cynigion. Yn dilyn rhoi'r Cydsyniad Brenhinol i'r Ddeddf ar 21 Mawrth, byddaf yn ysgrifennu at bob awdurdod cyhoeddus a fydd yn gorfod cydymffurfio â'r ddyletswydd yn adran 6. Mae hyn yn cynnwys y Grid Cenedlaethol.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddweud fy mod i'n disgwyl i'r arweiniad statudol ar y ddyletswydd yn adran 6 gael ei gyflwyno i awdurdodau cyhoeddus yn ddiweddarach eleni i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u gofynion statudol a'n disgwyliadau o ran cydymffurfio â'r ddyletswydd. Mae eisoes arweiniad ar y ddyletswydd bioamrywiaeth bresennol yn adran 40 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 a bydd awdurdodau cyhoeddus yn ymwybodol o hwnnw.

Hoffwn ailddatgan mai Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am ganiatáu seilwaith y grid trydan a'i fod yn cael ei gynllunio a'i ddarparu gan y Grid Cenedlaethol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Carl.Sargeant@wales.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae polisi ynni o ran prosiectau ynni graddfa fawr yng Nghymru yn gyfrifoldeb i bortffolio Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ac rydym yn parhau i gysylltu â Llywodraeth y DU ar y mater hwn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.

Yn gywir,



**Carl Sargeant**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Minister for Natural Resources